# CWLWM

**MAI**
**2026**

Rhif 75

**Golygydd:**
**Cath Williams**

**Pris 50c**



# *Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru*

## *CYNNWYS*

*Golygyddol*

*Crwydro*

*Pigion o Negesydd Emaus, Bangor*

*Cyfarfodydd Blynyddol y Mudiad 2025*

*Cerdd: Ffenestri*

*Cyfarfodydd yr Undeb Mehefin 2026*

*Rysait: Jiawled Bach*

*Adroddiad Glyn Nest*

*Croeso i Lanuwchllyn*

*Adroddiad yr Ysgrifennydd*

*Gair o Ddiolch*

# Gair Gan y Golygydd

Dyma "wythnos gwas newydd" i mi Cath Williams, wythnos bwysig yn y byd amaethyddol yn Llŷn fy mhlentyndod, wrth i'r meistri bwyso a mesur y gweision newydd. Bydd ambell ddarllenwr yn bwrw ffon fesur dros y rhifyn hwn o'n cylchgrawn mi wn. Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb o olygu Cwlwm, gan obeithio ysgafnhau ychydig ar gyfrifoldebau Bonni, rydw'i wedi dysgu llawer ac yn sylweddoli fod llawer mwy eto i'w ddysgu. Ddarllenwyr ffyddlon byddwch amyneddgar!

Bydd ambell un yn awyddus i ddod i wybod mwy am y Golygydd newydd felly dyma bwt o'm hanes. Mae Alwyn a finna' wedi byw yma yn Llansannan, pentref braf ddeng milltir o Ddinbych, ers dros hanner canrif. Roeddem yn aelodau ym Methania, eglwys y Bedyddwyr, nes daeth y pandemig a bu raid cau y drysau. Wedi hynny bu i ni yr aelodau prin sylweddoli mai anodd fyddai ail-gydio, ac fe ddaeth yr achos i ben er chwithdod a thristwch. Ers nifer o flynyddoedd fi yw Cadeirydd Cymanfa Dinbych Fflint a Meirion, ac er ein bod yn fach mewn niferoedd a'r ardal ddaearyddol yn eang, ceisiwn weithredu hyd eitha'n gallu er lles yr enwad yn y fro.

Sut ydw'i yn "dal i gredu" mewn byd sy'n ymddangos yn anwadal ac yn mynd yn fwyfwy eithafol? Flynyddoedd lawer yn ôl, ar ei bregeth, soniodd y diweddar Barchedig Gwilym Tilsli fod llawer Cristion yn nes at Dduw ar ben mynydd na rhwng pedair wal. Dyna lle caf fy ysbrydoliaeth, lle mae ffydd yn cael ei ail gynnau, nid ar ben mynydd bellach, ond ar ffyrdd a llwybrau tawel Bro Aled. Mae rhyfeddodau'r cread yn fy amgylchynu ac fe af allan bob dydd bron. Adnod ddaw i'm meddwl yn rheolaidd...... "Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn......" a dyna pam mae gwneud y pethau bach - tra bo cyfle - yn bwysig i mi.

Wrth i mi agor y bennod newydd yn hanes Cwlwm rhaid i mi ddiolch i Einir am ei chyfraniad diflino yn y gorffennol, am sawl pwt doeth ac am ei hiwmor cynnes caredig. Diolch Einir.

Diolch am bob cyfraniad amrywiol o bedwar ban i'n cylchgrawn llawen, a mwynhewch y darllen.

***Cofion atoch,***
***Cath***

# CRWYDRO

I ddechrau cystal i mi gyfaddef nad wyf yn ddynes mynd mewn awyren – dim ond unwaith – roedd hynny yn ormod! Do, rydwyf i wedi bod yn yr Iwerddon o Gaergybi, ond merch eisiau ei thraed ar y ddaear ydwyf, felly Prydain amdani. Erbyn hyn Cymru yw'r lle i mi fod, teithio yn y car a mwynhau, a minnau yn gyrru wrth gwrs, gan fy mod yn dipyn o "back seat driver" os byddaf ar daith hir yng nghar unrhyw un arall!

Sylweddolais yn ddiweddar fod yr enwad yn rhoi cyfle cyson i mi deithio i rannau o Gymru nad wyf wedi eu gweld o'r blaen – a hynny yn fy ngwneud yn drist ar un ystyr. Ond daw a digon o gyfle i gymdeithasu ac adnewyddu cyfeillgarwch, a hynny yn gysur i ni yn y gogledd gan ein bod mor wasgaredig fel aelodau.

Yn 2024, gyda gofal Duw, cefais gyfle i ymweld â Chyrddau y Senana yn Newbridge on Wye, llecyn braf ynghanol y wlad, ac yna ei troi trwyn y car am Croesgoch ar yr arfordir i Gyrddau'r Undeb. Buan iawn wedyn daeth diwedd Awst a chyfle i fod yn rhan o ddathliadau diwrnod agored Cartref Glyn Nest – lle arbennig. Ddechrau Medi dyma ei throi i gyfeiriad Trefeca a Chynhadledd y Senana. Daeth y teithio i ben  am y flwyddyn yn y gogledd, ym Môn Mam Cymru, neu wlad y medra ys dywad rhai, a hynny yn Llanerchymedd yng nghyrddau Mudiad y Chwiorydd. Yn 2025 cefais  ymweld â thref arbennig Aberteifi, Castell Newydd Emlyn a Chartref Glyn Nest, ac ym mis Medi mynd eto i Drefeca, gan ddarfod y teithio yng Nhyrddau'r Mudiad yn y Star – a minnau erioed wedi bod yn yr ardal hyfryd yma o'r blaen.

O edrych yn ôl sylweddolais fy mod wedi teithio o donnau gwyllt y môr i'r mynyddoedd, y golygfeydd yn hardd ond y tirwedd yn wahanol, o gaeau ffrwythlon i anialdir a chreigiau garw. Wrth i mi sylweddoli mor wahanol oedd y golygfeydd daeth i'm meddwl hanes yr Arglwydd Iesu yn adrodd hanes yr heuwr yn mynd allan i hau. Mae hi'n wanwyn ffrindiau, a minnau yn paratoi'r ardd ar gyfer plannu – tatws, ffa, ffa dringo, nionod ac ati – mae'n siŵr bod rhai ohonoch chwithau yn gwneud yr un modd, ac fe welwn fod y ffermwyr hefyd yn brysur. Ie, ni sydd yn hau yr had, ond Duw sydd yn gofalu am y tyfiant.

Fel Cristnogion, sut heuwyr y Gair ydym yn enw’r Arglwydd Iesu, mewn byd sydd â chymaint o dristwch ynddo? Fel y disgyblion, cawsom ein galw i fynd allan iddo i wneud ein gorau dros eraill. Rydym i gyd yn wahanol – rhyw “pick and mix” neu “”variety pack” ydym ond mae cyfle i ni i gyd rannu cariad Duw mewn gwahanol ffyrdd yn ein hardaloedd ein hunain, beth bynnag yr amgylchiadau. Peidiwn byth â blino ar wneud daioni a chofio am neges Dewi Sant, sef gwneud y pethau bychain sydd mor bwysig yn fy marn i.

***Hazel Williams Jones***

# Pigion o Negesydd Emaus

## Oes gen ti hoff adnod?

I ddweud y gwir, mae’n anodd dewis un adnod yn benodol fel fy hoff adnod. Mae nifer o wahanol adnodau gennyf sy’n dod a chysur ac arweiniad ac ysbrydoliaeth ar wahanol adegau ac mewn gwahanol amgylchiadau. Ond, os oes rhaid dewis un dyma fo: “*Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.*” Ioan 3.16. I mi mae’r geiriau hyn yn crynhoi neges yr Efengyl mewn un frawddeg. Mae Duw yn ein caru ni, ar waethaf ein amryw bechodau, ac wedi paratoi ffordd i ni fod mewn perthynas gydag o drwy ei Fab, Iesu Grist. Er ei symlrwydd mae dyfnderau yn yr adnod sy’n cymryd oes gyfan i’w ddeall a’i werthfawrogi!

***Eleri Lloyd Jones***

"Oes gen ti dy hoff adnod?" Oes! Ond nid adnod yn union, yn hytrach, gair. "Mair!" meddai Iesu. Faint o weithiau tybed y cyfarchodd Iesu Mair wrth ei henw? Hithau wedi teithio gyda'r criw, wedi ei chyfareddu gan Iesu ac yn dal ar bob gair o'i ben, a Iesu'n ei hadnabod, yn gwybod am ei hanes, yn gwybod am ei hymlyniad wrtho.
Ond erbyn hyn mae'r awdurdodau wedi cymryd Iesu a'i ladd, heb wrando'r dystiolaeth, heb apêl, heb oedi. Bu dilynwyr Iesu wrth law, yn gwylio'r oriau arteithiol olaf, eu gobeithion wedi'u chwalu. A'r bore wedi'r Saboth mae Mair yn mynd at y bedd yn ei galar. Ond mae hyd yn oed hynny yn cael ei gymryd oddi arni, achos dyw'r corff

ddim yno. Pwy sy wedi ei symud? Mae'n ormod iddi ac mae hi'n crio mewn anobaith. Daw rhywun i'r golwg ac mae hi'n troi arno drwy ei dagrau: "Os ti sy wedi ei symud, dwed wrtha i ble mae o imi gael mynd i'w nôl o." A dyna pryd mae Iesu'n ei chyfarch: "Mair!" - fel ac y gwnaeth gymaint o weithiau o'r blaen. Yn y cyfarchiad personol hwnnw, wrth fod Iesu'n adnabod Mair, a Mair yn ei adnabod o, mae ei hanobaith a'i galar yn cilio, a pherthynas Mair â'r Arglwydd Iesu atgyfodedig, yn cael ei selio.
Doedden ni ddim yno, ac nid Mair yw enw y rhan fwyaf ohonom, ond yn yr un gair hwn rydan ni'n cael ein dwyn yn ôl at y foment honno pan oedd ein byd a'n bywyd yn cael ei newid yn ein cyfarfod ni â Iesu.

***Jill Tomos***

## Fy hoff faner

Fy hoff faner ydi'r un sy'n dathlu'r Pasg. Y rheswm pam yw oherwydd mae o'n fy atgoffa am ddiwrnod hyfryd ges i yng nghwmni Ruth Davies (Caerdydd erbyn hyn), Lois Landsdown a merch o ardal y Bala mewn gweithdy gwneud baneri yn Aberystwyth. Cafodd y gweithdy ei drefnu gan Undeb Bedyddwyr Cymru, flynyddoedd maith yn ôl erbyn hyn. Ar ôl ei gynllunio yn y gweithdy, ddaru ni ddod adref a chreu'r faner ar gyfer muriau'r capel. Ruth oedd y prif bwythwraig a Lois a fi ddaru dorri'r darnau allan. Mae o wastad yn braf cael cydweithio gyda phobl eraill i greu rhywbeth prydferth.




***Dilwen Lloyd Jones***

# Cyfarfodydd Blynyddol y Mudiad yn Eglwys y Star, Sir Benfro, 25ain Medi 2025

Tyrrodd chwiorydd, a rhai brodyr, o bob rhan o Gymru i Sir Benfro mis Medi llynedd i achlysur arbennig a bendithiol iawn pan welwyd urddo un o aelodau ffyddlon Eglwys y Star Llanfyrnach yn Llywydd cenedlaethol Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru.
Aeth wyth mlynedd heibio ers i'r cyfarfodydd fod yn y sir o'r blaen, a hynny yn Tabor Dinas, pan esgynnodd Jean Daniels i'r llywyddiaeth. Saith mlynedd cyn hynny, yn 2010, Harmoni Pencaer oedd y gyrchfan a'r chwaer Margaret Davies yn dod yn llywydd. Chwe mlynedd cyn hynny, yn 2004, daeth y fraint i'm rhan innau yng Nghaersalem. A'r adeg hynny, roedd 12 mlynedd wedi mynd heibio oddi ar iddynt fod yn Hermon Abergwaun gyda'r ddiweddar Rita Williams yn camu i'r llywyddiaeth. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn Hermon Abergwaun ar bedwar achlysur i gyd – pan ddyrchafwyd yn llywyddion y diweddar chwiorydd C Wynne Owen (1959), Myfanwy Phillips (1970), Joan Osborne Thomas (1978), a Rita Williams (1992). Yn 1985, gwelwyd y torfeydd yn ymgynnull ym Mlaenwaun Llandudoch pan ddyrchafwyd y ddiweddar Mair Garnon James i'r swydd. Ond ym Medi 2025 y seren a urddwyd yn Star fel llywydd cenedlaethol Mudiad y Chwiorydd oedd Gret Evans.

**Oedfa'r Prynhawn**

Llywydd presennol y Mudiad, y Parchg Deb Stammers, gweinidog cynorthwyol ac Ysgogydd Cenhadol Ynys Môn, oedd yn gyfrifol am lywyddu oedfa'r prynhawn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan ddau o aelodau Star: Sharon Osborne yn darllen, a Cris Tomos, llywydd cyfredol Cymanfa Penfro, yn gweddïo. Valmai Thomas, Eiryth Thomas, a Rahel Thomas, aelodau'r eglwys, fu'n gyfrifol am gyflwyno'r emynau; a Iestyn Evans, mab y llywydd oedd y cyfeilydd. Estynnwyd croeso cynnes i gefn gwlad sir Benfro gan Rahel Thomas, ysgrifennydd yr eglwys, a chafwyd ganddi hefyd hanes diddorol dechreuadau'r achos yn Star.
Wedi canu 'Emyn y Mudiad' a derbyn yr offrwm gan Wyn Reynolds ac Ann Vaughan Williams, cyflwynwyd adroddiad yr ysgrifennydd gan Bonni Davies; adroddiad y trysorydd gan Hazel Williams Jones; ac adroddiad Glyn Nest gan Mair Roberts, ysgrifennydd y Pwyllgor Tŷ; cyn symud ymlaen wedyn i Seremoni Urddo'r Llywydd newydd.
Cyflwynwyd Gret gan Maureen Rees, un a fu'n cyd addoli â hi yn

Star ar hyd y blynyddoedd. Yna, gyda'r gynulleidfa ar ei thraed yn canu "Dyma Feibl Annwyl Iesu", arwyddodd y llywydd newydd Feibl y Mudiad ac arwisgwyd hi gan y Parchg Deb Stammers â Thlws Nanette, sef cadwyn arian y Mudiad o waith y gemydd Rhiannon. Offrymwyd gweddi'r urddo gan y Parchedig Sian Elin Thomas, un o gyn-lywyddion y Mudiad sy'n un o weinidogion Cymanfa Penfro.




Yn dilyn gweddi'r Urddo, darllenwyd gan ysgrifennydd y Mudiad gyfarchion i'r llywydd newydd oddi wrth y Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, oherwydd ei hanallu i fod yn bresennol yn yr oedfa.
Cyflwyno Lis Puw o Gymanfa Dinbych, Fflint a Meirion yn is-lywydd y Mudiad oedd y dasg nesaf a gwnaethpwyd hynny gyda graen gan Hazel Williams Jones, cyd-aelod o'r Gymanfa honno. Ymatebodd Lis drwy estyn croeso cynnes i bawb i Lanuwchllyn y flwyddyn wedyn.
Daeth mwy o gyfarchion wedyn i'r llywydd newydd, gan Natalie Morgan, Llywydd cyfredol Senana Cymru ac oddi wrth Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, y Parchg Rob Nicholls.



Cyn canu'r emyn nesaf, hudwyd y gynulleidfa gan eitem gerddorol ar yr organ gan Iestyn Evans, sy'n Gyfarwyddwr Cerdd yn Ysgol Goffa'r Cardinal Vaughan ac mewn dwy eglwys yn Llundain. Yn addas iawn, a hithau'n oedfa ar gyfer y merched, dewisodd Iestyn chwarae cerddoriaeth a gyfansoddwyd gan ferch, sef Amy Beech, yr Americanes gyntaf i greu symphoni.

Fel thema i’r oedfaon dewisodd y llywydd newydd adnod allan o Effesiaid 4, sef “Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon, yn maddau i’ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi”. Yn ei hanerchiad cafwyd ganddi ddigon o enghreifftiau o’r Hen Destament a’r Testament Newydd o bobl Duw yn dangos tosturi dros eraill, ac wrth gwrs yr Iesu ei hunan yn dangos tosturi a charedigrwydd dro ar ôl tro. Daeth oedfa hyfryd a bendithiol i glo wrth i’r Parchg Jill Tomos gyhoeddi’r fendith ac offrymu gras cyn bwyd.
Aeth pawb o’r oedfa wedyn i gyfeiriad Neuadd Bwlchygroes, lle roedd gwledd o fwyd a chroeso mawr yn eu haros. Hyfryd iawn oedd y gymdeithas o amgylch y byrddau rhwng y ddwy oedfa.




**Gyda’r llywydd, y cyn-lywydd a’r is-lywydd mae aelodau Pwyllgor Gwaith y Mudiad a oedd yn bresennol yn Oedfa’r Prynhawn.**

**Oedfa’r hwyr**
O dan lywyddiaeth Gret Evans, y llywydd newydd, parhawyd gyda’r thema yn oedfa’r hwyr. Cyflwynwyd yr emynau unwaith eto gan aelodau’r eglwys, sef Maureen Rees, Eunice Anthony, ac Angharad George, gyda Iestyn unwaith eto wrth yr organ. Y dasg bleserus nesaf oedd cyflwyno i’r gynulleidfa Donna George, aelod arall o Star, fel is-ysgrifenyddes newydd Mudiad y Chwiorydd. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Islwyn Evans, gŵr Gret, a Donna George; a gwnaed y casgliad gan Islwyn Evans a Brian Thomas.
Unwaith eto, cyflwynwyd eitem gerddorol i’w chofio gan Iestyn, ac unwaith eto, cyflwynodd greadigaeth o eiddo merch, sef gwaith a gyfansoddwyd gan Fanny Hensal, chwaer y cyfansoddwr enwog

Felix Mendelssohn. Wedi'r eitem wefreiddiol gan y mab, a chyn parhau gydag ail ran ei hanerchiad, swynwyd pawb gan y fam - a hynny wrth iddi ganu'r gerdd hyfryd gan W S Gwynn Williams, "Tosturi Duw".

Yn glo i'w hanerchiad, nododd Gret y byddai ein byd yn llawer hapusach a llawer iachach pe bai cariad a charedigrwydd yng nghalon pob un. Gellid dangos caredigrwydd mewn nifer o ffyrdd: gwirfoddoli dros eraill, gofalu am y rhai sydd mewn angen, neu dim ond trwy roi gwên i rywun wrth basio – dangos caredigrwydd a thosturi fel y gwnaeth yr Iesu.

Gorchwyl yr is-lywydd bob blwyddyn fydd cyfleu diolchgarwch ar ran pawb am lwyddiant y dydd ac fe lwyddodd Lis Puw wneud hynny'n raenus ac yn ddiffuant ar ran pawb.



Ag eithrio canu'r emyn olaf a chyhoeddi'r fendith, daeth gweithgareddau'r diwrnod bendithiol a chofiadwy hwn i ben yn seiniau peraidd Côr Bro Nest (uchod) o dan arweiniad Margaret Daniels ac i gyfeiliant Iestyn Evans - côr y mae'r llywydd yn aelod ohono.

Diolch i'r llywydd newydd am drefniadau gwych!



***Bonni Davies,***
***Ysgrifennydd y Mudiad.***

# Ffenestri

Saif yng nghysgod y mynydd -
capel di-arffordd;
un neu ddau sy’n dod,
ambell waith,
i sicrhau
nad yw’r drws ynghlo.

Ni pherthyn gwydr lliw rhwysgfawr
i’r noddfa unig;
dim ond adeilad di-addurn
gyda ffenestri syml,
ac amser wedi pylu’r gwydr;
ffenestri sy’n syllu
fel llygaid llonydd,
ar resi o seddi llychlyd;
ffenestri a glywodd
weddiau distaw,
a breuddwydion bregus;
blynyddoedd o glustfeinio
ar dawelwch
tu hwnt i eiriau ;
yn gwrando,
heb ddweud gair.

Tu cefn i’r capel
twll creulon lle bu ffenest;
gwydr yn deilchion
yn y gwair;
darnau garw yn pigo’r awyr,
miniog fel llafnau-
atgofion yn falurion,
adleisiau o fyw a marw,
da a drwg,
hwyl pregeth,

lleisiau plant,
haleliwia gorfoleddus,
hedd, perffaith hedd;
atgofion
fel brodwaith ar ddefnydd,
neu perlau mewn cregyn wystrus;
paderau coll
yn gwarchod y gorffennol -
drylliau o dristwch
a dychryn,
ar gyfer y dyfodol.
A ddaw rywun
i atgyweirio'r ffenest,
ac ail-godi'r gogoniant a fu?

***Zohrah Evans***
***Eglwys y Tabernacl, Caerdydd***

# Cyfarfodydd yr Undeb 18 -21 Mehefin, 2026

Cymanfa Dwyrain Morgannwg sy'n croesawu Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb eleni ac mae sawl eglwys o fewn y Gymanfa wedi bod ynglŷn â'r paratoadau. Er mwyn hwylustod yn Y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd y cynhelir y mwyafrif o'r cyfarfodydd. Ar y Dydd Iau, ar ôl addoliad agoriadol fe gynhelir eisteddiadau'r Undeb, yna sesiwn genhadol o dan ofal Y Parchedig Simeon Baker ar ôl cinio. Bydd cyfle i gyflwyno a chroesawu cynrychiolwyr o enwadau a sefydliadau eraill, ac yna gwahoddwyd Y Parchedigion Rhys Llwyd a Hannah Smethurst i bregethu yn Oedfa'r Weinidogaeth.

Ar ôl addoliad /Astudiaeth Feiblaidd ar y bore Gwener bydd Mudiad y Chwiorydd yn cael eu mewnbwn arferol. Eleni gwahoddwyd Sian Meinir i roi anerchiad byr i egluro sut yr aeth o'i chwmpas hi i

baratoi'r myfyrdodau a welwn yn 'Cennad' yn gyson. Maent yn seiliedig ar y gyfrol 'Codi'r Llen '- sef hanes deugain o ferched Yr Hen Destament sydd yn faes llafur i ddosbarthiadau oedolion yr Ysgol Sul eleni. Fe gofiwch rwy'n siŵr mai nifer o ferched Y Tabernacl, Caerdydd fu'n brysur yn paratoi cyfieithiad o'r llyfr dan olygyddiaeth Ruth Davies, oedd yn Llywydd y Mudiad ar y pryd.

Bydd yna gyffro wedyn wrth i ni deithio i Goleg y Bedyddwyr a chael taith o amgylch yr adeilad. Manteisir ar yr ymweliad i agor Llyfrgell T.M.Bassett - casgliad o lyfrau y bu Mr Bassett a Mr G B Owen, Bangor yn treulio wythnosau yn eu didoli a rhoi trefn arnynt. Oherwydd bod Y Coleg Gwyn ym Mangor wedi cau bellach, trefnwyd fod y llyfrgell, yn ei chrynswth, yn dod i'r Coleg yng Nghaerdydd ac fe addaswyd ystafell yn arbennig ar gyfer y llyfrau.

Dr Sian Rhiannon, un o aelodau'r Tabernacl fydd yn traddodi Darlith Y Gymdeithas Heddwch. Ei thestun fydd, 'Pererindod heddwch: menywod Cymru dros fyd di-ryfel yn y 1920au a'r 1930au.' Dilynir hyn gan sesiwn 'Llwybrau Newydd' fydd yn ein helpu i ddatblygu adnoddau gwahanol yn ein haddoliad.

Y Parchedig Ddr Rosa Hunt fydd yn dod i'r llywyddiaeth ac y mae wedi dewis y thema 'Rhodiwch mewn Cariad' (Eff 5:2). Edrychwn ymlaen i'w hanerchiad a dyma ddywed Rosa, '*Merhba*! Dyma sut yr ydym yn croesawu pobl ym Malteg, a dwi wir yn gobeithio y bydd pawb yn teimlo croeso cynnes iawn iawn yng Nghaerdydd eleni wrth i gyfarfodydd yr Undeb ddod i Gymanfa Dwyrain Morgannwg. *Merhba lilkom ilkoli* – croeso i chi i gyd.'

Ar y dydd Sadwrn, trefnir 'Pererindod Heddwch' pan gawn ymweld â mannau sy'n rhan o stori'r dyhead am heddwch byd-eang. Bydd seibiant wedyn cyn y Gymanfa Ganu dan ofal Gwawr Owen am 7 o'r gloch yr hwyr. Daw'r holl ddathliadau i ben mewn Oedfa Gymun Undebol Eglwysi Cymraeg Caerdydd gyda'r Parchedig Owain Llyr yn bregethwr gwadd ar y bore Sul, 21 Mehefin.

Mawr obeithiwn y gallwch ymuno â ni eleni.

***Ruth Davies***
***Eglwys y Tabernacl, Caerdydd***

# Jiawled Bach

Pa gacennau fyddwch chi'n eu paratoi ar gyfer angladd neu achlysur cymdeithasol pwysig? Wel, ym mhentref Pontrhydyfen un ffefryn pendant oedd 'jiawled bach Anti Hilda'. Dyma Hilda Owen, chwaer Richard Jenkins (Burton), a gallwch fod yn siŵr ei fod yntau wedi bwyta'u siâr ohonyn nhw! Roedd Hilda Owen yn un o drigolion mwyaf blaenllaw'r pentref, yn byw yn Oakwood, Pontrhydyfen ac yn gefnogol i weithgareddau'r Gymdeithas (Gymraeg), yr Ysgol Gymraeg a Chapel y Bedyddwyr Bethel, sydd bellach yn gaffi chwaethus. Mae rhai yn ei chofio'n dod i ganghennau Merched y Wawr i siarad am ei brawd enwog, Richard, yn ei thafodiaith gyfoethog.

Pam gafodd y cacennau yma'r fath enw? Pwy o ŵyr, ond maen nhw'n amheuthun blasus iawn!

***Cynhwysion***

Bloc 8 owns/200g. siocled llaeth neu siocled tywyll
2 owns/50g. menyn neu fargarîn
4 owns/100g. siwgr mân (caster)
1 wy wedi ei guro
4 owns/100g. cnau coco
2 owns/ 50g. syltanas
2 owns/ 50g. ceirios glacé wedi eu chwarteri

***Dull***

Irwch dun Swis-rôl maint 11 modfedd wrth 7 modfedd neu leiniwch y tun â ffoil.

Toddwch y siocled wedi ei dorri'n fân mewn basn dros sosban o ddŵr poeth. Arllwyswch y siocled i'r tun a gadael iddo setio.

Cynheswch y ffwrn i 300ºF/140ºC/nwy marc 2.

Cymysgwch y menyn/margarîn a'r siwgr nes eu bod yn ysgafn.

Ychwanegwch yr wy, yna'r cnau coco, y syltanas a'r ceirios a'u cymysgu'n dda. Taenwch y cyfan yn wastad dros y siocled wedi setio.

Pobwch am tua 45 munud nes ei fod yn frown euraidd.

Pan fydd wedi coginio, gadewch iddo sefyll am bum munud, yna marciwch e'n sleisys.

Pan fydd wedi oeri'n iawn yn y tun, torrwch yn ddarnau hirsgwar cytbwys.

Bwytewch a mwynhewch!

*(Y rysáit trwy garedigrwydd Catherine Davies a Margaret Jones, cangen Afan. Diolch i Sarah East am ei anfon atom.)*

# Adroddiad o Glyn Nest

Mae'n braf gallu ysgrifennu adroddiad i chi am Gartref Gofal y Bedyddwyr yn arbennig am yr holl weithgarwch sydd wedi digwydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

**Nadolig** - Does dim dwywaith mai un o gyfnodau prysuraf y Cartref yw'r Nadolig, gyda llawer o ymwelwyr yn dod i mewn i gynnal sesiynau. Canu yw'r sesiynau mwyaf poblogaidd fel arfer. Os mae'r deiliaid yn cael y cyfle i ganu, neu os maent yn cael cyfle i eistedd yn nôl i wrando ar bobl yn dod i'w diddanu, maent yn hapus iawn. Mae'n bwysig i'r staff ein bod ni yn ceisio gwneud y Nadolig yn sbesial i'r bobl sydd wedi dewis Glyn Nest fel eu Cartref, achos mae Nadolig yn sicr yn un o'r adegau sydd yn llawn hiraeth i'r deiliaid.
Ond fel trît ychwanegol fe ddaeth Daf Wyn â chriw Prynhawn Da i weld yr hwyl sydd yn digwydd dros yr Ŵyl, a chafodd y rhaglen ei darlledu ar Noswyl Nadolig, gyda llawer iawn wedi gweld clipiau o'r deiliaid yn cael sbort ar y cyfryngau cymdeithasol.
Cawsom oedfa hyfryd ar fore Nadolig, ac ymweliad gan y dyn mawr ei hun yn ei siwt goch. Joio oedd y gair y dydd!

**Y Flwyddyn Newydd a Gŵyl Dewi** - Ymlaen i'r flwyddyn newydd a'r prysurdeb yn parhau o hyd. Gyda thrin gwallt a thylino dwylo a thraed a therapi anifail anwes o hyd yn boblogaidd iawn.
Fe ddaeth Gŵyl Dewi gyda sesiynau canu, ymweliad gan blantos bach Teifi Tots yn eu gwisgoedd bach Cymreig (ciwt ofnadwy), oedfaon a digon o gawl, pice ar y maen a bara brith.

**Y Pasg** - Mae'r Pasg o hyd yn adeg bwysig yn y Cartref gyda'r lle yn cael ei addurno yn brydferth. Cawsom De Prynhawn blasus iawn a sesiwn canu gydag un o staff talentog y Cartref, sef Sonia.
Bu hefyd y cyfle i gofio am aberth ein Harglwydd Iesu Grist drwy gynnal Oedfa ar ddydd Gwener y Groglith.

Diolch i Jayne a holl staff y Cartref unwaith eto am eu gwaith diflino drwy gydol y flwyddyn, nid yn unig am y gofal ymarferol, ond gofal meddyliol ac ysbrydol hefyd.
Gweddïwn i Dduw am barhad i'r gwaith arbennig sydd yn digwydd o fore gwyn tan nos i sicrhau bod y bobl sydd wedi ymddiried eu gofal i ni yn iach ac yn llawen.




**Daf yn cyfweld un o'r deiliad,  Ms Beti Thomas, San Clêr.**





**UCHOD: Y Parchg Wyn Thomas, Natalie Morgan, Donna George a Siân Elin yn cael hwyl yn diddanu'r deiliaid adeg y Nadolig.**

**I'R DDE: Y dyn pwysig ei hun, a'i gorrach, wedi dod i ddosbarthu anrhegion i bawb ar ddydd Nadolig.**
***Diolch i'r Caplan Sian Elin am yr adroddiad.***

# Croeso i Lanuwchllyn

**Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad Chwiorydd**
**Undeb Bedyddwyr Cymru**
**Croeso i Lanuwchllyn**
**16/9/2026**
**Cyfarfod y prynhawn: 2.00pm yn yr Ysgoldy yn y pentref**
**Lluniaeth "cyllell a fforc" am £5 y pen yn unig**
**Cyfle i ymweld â Chapel Ainon y Bedyddwyr**
**Cyfarfod yr hwyr am 6.00pm yn yr Ysgoldy**
**Bydd angen sicrhau tocyn bwyd (£5) erbyn 1af Awst trwy law**
**Trysorydd Mudiad y Merched: Hazel Williams-Jones**
**01824704577 *hazelwilliamsjones@gmail.com***

**Ydy Llanuwchllyn yn bell?**
44 milltir o Aberystwyth (1awr, 10 munud) ar yr A847 i Machynlleth/ Dolgellau, troi i'r chwith ac ymuno â'r A470 wrth westy'r Cross Foxes, a throi i'r dde ar gylchdro Dolgellau i gyfeiriad Y Bala (A494).
50 milltir o Fangor (1 awr, 20 munud)
*naill ai* A5 tan ryw hanner milltir ar ôl Cerrigydrudion a throi i'r dde am Y Bala (B4501),
*neu* trwy Caernarfon, Porthmadog, a throi i'r chwith ar gylchdro Dolgellau i gyfeiriad Y Bala ar yr A494
90 milltir o Aberhonddu (2awr, 15 munud) A470 bob cam a throi i'r dde ar gylchdro Dolgellau i gyfeiriad Y Bala (A494)
Byddwn yn cyfarfod yn "Yr Ysgoldy" yng nghanol y pentref (trowch mewn i'r pentref ar y gornel lle saif y siop/garej) côd post: LL23 7TY, ac fe fydd stiwardiaid yn helpu gyda'r parcio. Bydd y bwyd yn y Neuadd drws nesaf i'r Ysgoldy, ac yno mae'r cyfleusterau hefyd.
**Sut le ydy Llanuwchllyn? -** Pentref prysur a Chymreig a chymoedd sy'n ffermio'n draddodiadol yw Llanuwchllyn. Fel y mae'r enw yn awgrymu, pentref ar ben uchaf Llyn Tegid ydyw, gyda'r afon Ddyfrdwy ("dŵr dwyfol") yn llifo mewn i'r llyn yma, ac yn llifo allan o'r llyn yn Y Bala, cyn parhau ar ei thaith o tua 90 milltir i'r môr, gan fynd heibio i Langollen a Chaer (Chester). Yn gofalu dros yr ardal o gwmpas Llyn Tegid mae mynyddoedd uchel yr Aran a'r Arennig, ac ucheldiroedd y Berwyn.
**Bedyddwyr Llanuwchllyn -** Wyth aelod oedd mwyafswm aelodau Ainon yn y gorffennol, er hynny dywedwyd y codwyd pymtheg o

Weinidogion o'r cynulleidfaoedd. Tri aelod sydd yn Ainon yn bresennol, ond rydym yn teimlo'n gryf a niferus gan ein bod yn rhan o Ofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch o dan arweiniad ein gweinidog prysur, y Parchedig Carwyn Siddall. Rydym yn un Ofalaeth hapus ac mae parch i hunaniaeth pob enwad a phob capel yn y fro, gan ymestyn i gynnwys cynulleidfa'r Annibynwyr yn Y Bala. Ymddiriedolaeth Eglwysi a Chapeli Cymru sydd erbyn hyn yn berchen ar adeilad capel bach Ainon oherwydd ei hynodrwydd pensaernïol, ond y maent yn garedig iawn yn caniatáu i ni ddefnyddio'r adeilad ar gyfer gwasanaethau achlysurol.

**Beth yw hanes y pentref? -** Ar wefan y Cyngor Cymuned darllenir: Bu'r Rhufeiniaid yma yng Nghaer Gai ac mae olion eu ffyrdd yn croesi'r ardal i'r pedwar cyfeiriad. Yng Nghwm Pennantlliw wedyn mae Castell Carndochan yn ein hatgoffa o gyfnod y Tywysogion a'r gyfeddach a fu yno yn oes Rhirid Flaidd (*gwladgarwr go ffyrnig!).* Cysylltir yr ardal â llu o enwogion y gorffennol: y rhai amlycaf yn eu plith mae'n debyg yw Syr O M Edwards, Syr Ifan ap Owen Edwards (*sylfaenydd yr Urdd*), a Michael D Jones (*sylfaenydd y Wladfa ym Mhatagonia*). Ond yr hyn sy'n nodweddu Llanuwchllyn yw bwrlwm y bywyd diwylliannol yma ac mae'r iaith Gymraeg yn dal i ffynnu yn yr ysgol a'r gymuned.

Un o fentrau diweddaraf yr ardal, ar ôl sicrhau cae pêl-droed, oedd y fenter gymunedol i brynu'r dafarn leol "Yr Eryrod" sydd yn un o gonglfeini'r pentref, ynghyd â'r siop/garej, yr ysgol gynradd, y neuadd bentref ac, wrth gwrs, yr Ofalaeth Bro.

**Beth am wyliau bach yma cyn y gaeaf? -** Mae yma feysydd carafanau yn gyfleus i'r pentref – Bryn Gwyn, Glanllyn, Pant yr Onnen yn Llangywer, a Bwch yn Uchaf yn agos i Lanuwchllyn (holwch am safle gyda thrydan). Mae gwely-a-brecwast (Bwch yn Uchaf eto), a mannau eraill ar y gwefannau. Mae trên bach yn rhedeg ar hyd lan y llyn (ar hyn o bryd yn stopio rhyw hanner milltir o'r Bala). Mae'r Bala ei hun yn fywiog gyda digon o lefydd bwyta. Cofiwch ymweld â Byd Mary Jones a'r caffi ardderchog yno rhyw filltir cyn cyrraedd Y Bala. Ewch ar y ffordd i gyfeiriad Trawsfynydd (A4312) i weld argae Tryweryn, lle boddwyd pentref Capel Celyn yn y 60'au er mwyn i Lerpwl gael mwy o ddŵr – mae yna gapel coffa bychan ar lan y llyn. Os yn fentrus, ewch ar rafft neu ganŵ lawr y dŵr gwyn gwyllt! Byddai hynny yn lun hanesyddol i "Cwlwm" !

Mae llwyth o bethau i'w gweld a'u gwneud, ac mae'n sicr y bydd croeso cynnes iawn i chi yn Llanuwchllyn – edrychwn ymlaen at eich gweld.

***Lis Puw, Darpar Lywydd***

# Adroddiad yr Ysgrifennydd



**Cwlwm -** Fel arfer, byddaf yn dechrau'r adroddiad hwn trwy gyfeirio at gyfarfodydd Blynyddol y Mudiad ym mis Medi. Dwi am wneud eithriad y tro yma a chyfeirio'n hytrach at Cwlwm. Y rheswm pennaf am hyn yw er mwyn diolch i Cath Williams, Llansannan, am ei dewrder yn cymryd arni swyddogaeth Golygydd y papur, a hithau heb wisgo cap o'r fath o'r blaen. Rwyf yn hynod, hynod o ddiolchgar iddi ac yn diolch hefyd am yr hyn a ysgrifennwyd ganddi yn y golofn olygyddol. Diolch hefyd, wrth reswm, i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn. Heb y cyfraniadau, ni fyddai angen golygydd na chysodydd!

**Colled** - Daeth newyddion trist iawn wythnos cyn y Cyfarfodydd Blynyddol mis Medi llynedd am farwolaeth un a fu'n ffyddlon iawn i'r Mudiad dros nifer fawr o flynyddoedd, sef y ddiweddar chwaer Rosemary Morgan. Pan gamodd Rosemary i lywyddiaeth y Mudiad yn Ebeneser Llandeilo ym Medi 2008, gosododd her i aelodau'r Mudiad ac i eglwysi a Chymanfaoedd ar draws Cymru. Yr her a osodwyd ganddi, fel Llywydd, oedd codi £10,000 i'r ddau gartref a hynny trwy drefnu gweithgareddau arbennig yn enw'r Mudiad. Ymatebwyd yn dda i'r her gan i'r targed gael ei oddiweddyd. Casglwyd dros £14,000 ac o ganlyniad cyflwynwyd rhoddion o £7,300 yr un i gartrefi Glyn Nest a Bryn Llifon.

Ie, person fel yna oedd Rosemary a byddwn fel Mudiad yn gweld ei heisiau'n fawr. Bu'n aelod gwerthfawr iawn o'r Pwyllgor Gwaith, ac roedd bob amser yn aml ei chymwynas, ei chefnogaeth a'i chyngor, a ninnau, fel aelodau'r pwyllgor, yn barod iawn i fanteisio ar ei phrofiad eang a'i doethineb.

Mae bywydau pawb ohonom yn gyfoethocach o fod wedi ei hadnabod a'r deyrnged orau allwn, ni fel aelodau o'r Mudiad, ei thalu iddi bellach yw parhau, orau y medrwn, gyda'r gwaith oedd mor agos at ei chalon. Coffa da amdani.

**Cyfarfodydd Blynyddol 2025 -** Aeth wyth mis heibio ers cyfarfod â'n gilydd yn y Star Sir Benfro ar gyfer y cyfarfodydd blynyddol er

mwyn dyrchafu Gret Evans yn llywydd a Lis Puw yn is-lywydd y Mudiad. Ceir yr hanes yn llawn yn y rhifyn hwn.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd** - Yn ôl yr arfer, ar y Llun cyntaf yn Nhachwedd, cafodd chwiorydd Bedyddiedig Cymru'r cyfle i uno mewn gweddi gyda chwiorydd o Fedyddwyr ar draws y byd. "Byw'r Newyddion Da" oedd y thema llynedd a diolchir i Elen Landsdown a Nia Llwyd, o Emaus, Bangor am addasu a chyfieithu'r oedfa ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Diolchir hefyd i bawb a ddaeth ynghyd i gynnal oedfa mewn gwahanol ardaloedd gyda'r canlyniad i £545 o gasgliad gael ei anfon ar gyfer prosiectau ar draws y byd, gan gynnwys £100 a ddaeth yn hwyr y flwyddyn cynt. Diolch o galon hefyd i Lis Puw, ein his-lywydd, o eglwys Ainon, Llanuwchllyn, am gytuno i wneud y gwaith o addasu eleni, a bydd copi Saesneg yn cael ei anfon ati yn syth pan ddaw i law.

**Aelodaeth o'r Mudiad** - Anfonwyd ffurflenni ymuno â Mudiad y Chwiorydd allan ddechrau'r flwyddyn gan ein trysorydd, Hazel Williams Jones. Hyd yma, ymaelododd o gwmpas 60, gyda mwy ar y ffordd, gobeithio. Diolch i bawb sy'n parhau i fod yn ffyddlon ac sy'n parhau i gadw cysylltiad drwy'r Cwlwm a'r dydd Gweddi, ac a fydd yn derbyn gwybodaeth am y Mudiad ar hyd y flwyddyn.

**Pwyllgorau 2026 -** Cyfarfod dros y wê yn yr hwyr fu hanes y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth eleni eto, gan roi gwell cyfle i'r rhai sy'n gweithio. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a gynhelir am 1.30yp ar 2il Gorffennaf, yn cael ei gynnal eleni eto yn Neuadd Pantyfedwen Aberystwyth gan roi'r dewis o ymgynnull wyneb yn wyneb neu ar y wê.

**Mai a Mehefin** –Diolchir yn fawr iawn i'n llywydd cyfredol Gret Evans am drefnu noson o adloniant yng Nghapel Mair, Aberteifi ar 1af Mai 2026 gyda'r elw i gyd yn mynd i Gartref Glyn Nest. Ei mab Iestyn fydd yn cyflwyno'r eitemau, sef Côr Bro Nest a'r Parchg Wyn Maskell, a phawb yn rhoi o'u hamser am ddim. Rai dyddiau'n ddiweddarach fe fydd llawer o'r aelodau yn ymuno yng nghapel Ebeneser, Dolgellau ar 6ed o Fai i Gyfarfod Blynyddol y Senana, gyda'r llywydd yn dwyn cyfarchion ar ran y Mudiad. Bydd cyfle i glywed llais y Mudiad hefyd yng nghynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru yn y Tabernacl, Caerdydd ar 18fed a'r 19eg Mehefin. Bydd slot o hanner awr gan y Mudiad am 10 o'r gloch ar y dydd Gwener. Diolch i'r trefnwyr am y cyfle unwaith yn rhagor.

**Glyn Nest** – Edrychir ymlaen yn eiddgar bob blwyddyn at Ddydd Agored Glyn Nest ac mae hwnnw'n disgyn eleni ar Awst 26ain. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron nawr! Edrychir ymlaen at groesawu pobl yno o bob rhan o Gymru ac fe fydd ein llywydd unwaith eto'n dwyn cyfarchion ar ein rhan. Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Mudiad â Glyn Nest a byddwn yn ceisio cefnogi cymaint ag y bo modd. Penderfynodd y Pwyllgor Cyffredinol gyflwyno £1,000 o rodd eleni eto.

**Gwau a gwnïo** - Atgoffir pawb bod yr ymgyrchoedd yn parhau ac estynnir diolchgarwch i bawb a fu wrthi'n ddiwyd ar hyd y flwyddyn. Bellach Jenny Jenkins o Aberystwyth - un sydd yn gwneud ymweliadau mynych â gwlad Wcráin - fydd yn eu cymryd. Mae'n ddiolchgar iawn am bob rhodd, felly daliwch ati i wau neu wnïo!

**Cyfarfod Blynyddol 2026** –Edrychwn ymlaen at gael teithio i Lanuwchllyn ar gyfer ein Cyfarfodydd Blynyddol eleni. Mae'r darpar lywydd ei hunan wedi estyn croeso cynnes swyddogol i bawb yn y rhifyn hwn. Pob dymuniad da felly i Lis Puw wrth iddi gamu i'r llywyddiaeth. Er mwyn anrhydeddu'r Parchedig Judith Morris am ei chyfraniad gwerthfawr i'r Mudiad yn ystod ei thymor fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, estynnodd y Pwyllgor Gwaith wahoddiad iddi fod yn is-lywydd y Mudiad am 2026-2027. Y newyddion cadarnhaol a llawen yw iddi dderbyn y gwahoddiad yn rasol. Gyda diolch, dymunir yn dda iddi hithau wrth iddi gamu i'r is-lywyddiaeth yn Llanuwchllyn. Diolchir yn arbennig hefyd i Gret am arwain y Mudiad yn fedrus ar hyd y flwyddyn.

***Cofion gore, Bonni***

**Ar y mynydd gyda Duw,**

**O mor ogoneddus yw;**

**Dwndwr pechod byd ymhell,**

**Ninnau gyda'r bywyd gwell.**

***Myfyr Hefin***

# GAIR O DDIOLCH

Yn ystod cyfarfod Cyngor Unedig UBC a gynhaliwyd yn Aberystwyth ddydd Iau, 16 Ebrill 2026, cefais gyfle i fynegi fy niolchiadau wrth i'm cyfnod fel yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddirwyn i ben.
Bu'n fraint arbennig cael gwasanaethu'r Undeb, ac rwy'n hynod ddiolchgar am y gefnogaeth ar hyd y daith, am bob cyfle i gydweithio â holl eglwysi UBC, yn ogystal â'r cyfleoedd i gynrychioli'r Undeb mewn cyfarfodydd a chynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol.



**Judith gyda'r rhoddion a dderbyniodd ar diwedd cyfarfod o'r Cyngor Unedig.**

Diolch i'r holl wirfoddolwyr am eu haelioni wrth roi o'u hamser i fynychu cyfarfodydd drwy'r flwyddyn, a hynny yn ddirwgnach; i Ymddiriedolwyr yr Undeb; i Gyfarwyddwyr y Gorfforaeth; ac i Arolygwyr, Ysgrifenyddion a Thrysoryddion y Cymanfaoedd. Gwerthfawrogais eu presenoldeb a'u cyfraniadau cyfoethog yn fawr. Diolch hefyd am waith Mudiad y Chwiorydd a'r Senana, ac i swyddogion ein heglwysi ar draws y wlad am eu gwaith diflino.
Mae'n rhaid imi hefyd ddiolch i rai unigolion yn benodol.
Amhosibl yw crisialu fy niolch i'm priod, Wyn. Bu'n gefn aruthrol imi drwy'r cyfnod, gan roi pob math o gymorth, ac rwy'n hynod ddyledus iddo.
Rhaid diolch hefyd i'm rhagflaenydd, y Parchg Peter Thomas, a'i briod, Meryl, am eu cefnogaeth a'u croeso ar yr aelwyd. Dros y blynyddoedd anfonais ddegau o negeseuon e-bost at Peter yn gofyn am ei gyngor, a byddwn bob amser yn derbyn atebion prydlon ganddo.
Diolch i Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Mr Bill Davies, ac i Mr Glyndwr Prideaux a'r Parchg Aled Davies a oedd hefyd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb arbennig hwn.

Bill oedd Cadeirydd y Panel Penodi pan gefais fy mhenodi, ac mae angen imi gyfaddef rhywbeth a fu'n pwyso arnaf ers y cyfweliad ar gyfer y swydd yn ôl yn 2014. Un o'r cwestiynau a ofynnwyd imi oedd: 'Ble fydd yr Undeb ymhen deng mlynedd?'

Nid wyf yn cofio'n union sut yr ymatebais, ond gwyddwn nad oeddwn wedi ateb y cwestiwn fel y dylaswn! Un mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach, gyda chryn ryddhad, rwyf yn falch fy mod o'r diwedd yn gallu dweud, er ein bod fel Undeb wedi lleihau mewn niferoedd, mae'r egni, yr ymrwymiad a'r ymroddiad yr un mor frwd ag erioed, a chafwyd datblygiadau gwerthfawr a niferus dros y blynyddoedd.

Yn ddi-os, bu Duw yn dda wrth anfon gweithwyr i wasanaethu UBC.

Yn dilyn ymddeoliad y diweddar Athro Howard Evans fel Trysorydd yr Undeb, testun diolch oedd croesawu Mr Glyndwr Prideaux fel y Trysorydd a Chadeirydd y Gorfforaeth. Yna, pan fu farw'r diweddar Mr Lynn John, hyfrydwch oedd penodi'r Athro Iwan Davies yn gyfreithiwr anrhydeddus yr Undeb. Rydym wedi elwa'n fawr o brofiad ac arbenigedd Iwan.

Rhaid, hefyd, cydnabod cyfraniad cyson Mr Nick Davies, o gwmni Cross & Bowen, i faterion ariannol yr Undeb.

Diolch i Lywyddion presennol yr Undeb, sef y Parchg Rob Nicholls a'r Parchg Maggie Rich, ac i'r holl gyn-Lywyddion y cefais y fraint o gydweithio â hwy. Dymunaf yn dda i'r Parchg Ddr Rosa Hunt a'r Parchg Paul Smethurst, a fydd yn cael eu neilltuo yn ystod misoedd yr haf. Bu'r cydweithio rhwng y ddwy adain yn arbennig.

Diolch i'r Parchg Steve Wallis am gadeirio Bwrdd y Weinidogaeth; i'r Parchg Denzil John am gadeirio'r Pwyllgor Eglwys a Chyfrifoldeb Cymdeithasol; i'r Parchg Marc Owen am gadeirio Bwrdd yr Arolygwyr; ac i'r Parchg Simeon Baker am gadeirio Bwrdd y Genhadaeth.

Er nad oedd y Parchg Irfon a Mrs Mair Roberts yn medru bod yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor, rwyf yn awyddus i gyfeirio at y gwaith aruthrol a gyflawnir yng Nglyn Nest o dan eu harweiniad. Ar yr un pryd, calonogol yw gweld gwaith Esgyn - gyda phlant a phobl ifainc - yn mynd o nerth i nerth o dan arweiniad y Parchg Tim Moody a'r tîm.

Fel Undeb, gallwn ymfalchïo yng nghyfraniad ein hysgolhaig, y Parchg Ddr Densil Morgan, sydd wedi bod wrth law i gynnig arweiniad clir a chadarn pan oedd cwestiynau dyrys diwinyddol wedi codi. Diolch hefyd am y bartneriaeth gyda'r Coleg Gwyn a Choleg y Bedyddwyr Caerdydd.

Diolch i Miss Aldyth Williams am gadeirio'r Panel Diogelu Cydenwadol, ac i'r Parchg Deb Stammers am gytuno i gadeirio'r Panel dros y tair blynedd nesaf. Diolch hefyd i Mrs Delyth Morgans Phillips am gytuno i gadeirio Cyngor yr Ysgolion Sul.
Diolch i Mrs Lynwen Davies am ei gwaith yn darparu'r gwasanaeth cyfieithu.
Cefais gyfle i ddiolch i'r tîm yn y Swyddfa dros ginio ar ddiwedd mis Mawrth. Bu pob un ohonynt yn gydweithwyr rhagorol, a byddaf yn gweld eu heisiau'n fawr.
Wrth gloi, hoffwn ddymuno'n dda i'm holynydd ardderchog, y Parchg Simeon Baker, a deisyfwn fendith gyfoethog Duw arno.

Ac i Dduw bo'r clod bob amser!

***Judith Morris***



**Staff Swyddfa'r Undeb, ynghyd â dwy gyn aelod o staff, yn cael cyfle i ddiolch am bopeth i Judith cyn ffarwelio â hi.**

**O'r chwith i'r dde: Llinos Penfold, Marc Owen, Judith Morris, Simeon Baker, Menna Jones, Carwyn Graves, Bonni Davies, Christian Williams, Sioned Graves, Beci Jones, Nigel Vaughan a Gwen Lye-Phillips. Yn anffodus nid oedd modd i Helen Wyn fod yn bresennol ar y dydd.**


Mudiad y Chwiorydd
Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion
Noswaith yng nghwmni
Rhian Morgan
Llandeilo
Festri Tabernacl, Caerfyrddin
11eg Mehefin 2026
7yh
Te, coffi a phicau bach ar gael
Croeso cynnes i bawb!